| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad :** | **11.7.2017** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant** |
| **Aelod(au)Portffolio** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Llŷr Bryn Roberts** |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Ffôn :**<br>**E-bost :** | **Llŷr Bryn Roberts - Pennaeth Dros Dro - Gwasanaethau Plant (Gweithrediadau)**<br>01248 752 765<br>llyrbrynroberts@YnysMon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau** |

## 1.0 Argymhelliad

1.1 Bod Aelodau'n nodi'r cynnydd hyd yma.

## 2.0 Cefndir

2.1 Arolygwyd Gwasanaethau Plant Ynys Môn gan AGGCC ym mis Hydref a mis Tachwedd 2016. Bydd Aelodau'n ymwybodol i'r Awdurdod sefydlu panel Aelodau[1] i fonitro cynnydd a hefyd dal y Gwasanaeth i gyfrif. Bydd y Panel yn derbyn gwybodaeth fanwl ar gynnydd a gwneir trefniadau i gyflwyno crynodeb o'r adroddiadau cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn.

## 3.0 Sgôp yr Arolygiad

3.1 'Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar sut mae plant a theuluoedd yn cael eu grymuso i gael mynediad at wasanaethau cymorth, gofal a chefnogaeth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer plant sydd angen cymorth, gofal a chefnogaeth a / neu blant y mae angen eu hamddiffyn, gan gynnwys plant sydd, yn ddiweddar, wedi dod yn blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. 'Roedd yr arolygiad hefyd yn gwerthuso ansawdd y trefniadau arweinyddiaeth, rheoli a llywodraethu a oedd ar waith i ddatblygu a chefnogi darparu gwasanaethau.

## 4.0 Argymhellion adroddiad AGGCC

4.1 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol AGGCC ar 7 Mawrth 2017 ac 'roedd ynddo 14 o argymhellion:

[1] Panel Gwella Gwasanaethau Plant

4.2 **Fel blaenoriaeth**:

1. Dylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'i ymrwymiad i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu gwaith ataliol gyda phlant a theuluoedd a fydd yn darparu gwasanaeth integredig yn ogystal â darparu help a chymorth cynnar sy'n oedi'n effeithiol yr angen am ofal a chymorth.
2. Dylid sefydlu systemau sicrhau ansawdd a threfniadau hyfforddiant aml-asiantaeth effeithiol i sicrhau bod y staff a'r partneriaid yn deall y trothwyon ar gyfer asesu gwasanaethau plant statudol a'u bod yn cael eu cymhwyso'n gyson; dylai hyn gynnwys datblygu protocol trothwyon diogelu plant aml-asiantaeth sy'n ymgorffori'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.
3. Dylai uwch arweinwyr yn y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu barhau i gydweithio'n rhagweithiol i sicrhau gwelliannau i ansawdd, cysondeb ac amseroldeb ymholiadau diogelu plant.
4. Dylai'r cyngor barhau i gynorthwyo uwch arweinwyr i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur gymhleth a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant, er mwyn rhoi sicrwydd iddynt hwy, eu partneriaid, staff a chymunedau bod eu cyfrifoldebau yn cael eu cyflawni i'r eithaf.
5. Dylid datblygu strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu i gynnwys nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor er mwyn recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol.
6. Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolwyr timau ac uwch ymarferwyr er mwyn sicrhau capasiti digonol i ddarparu arolygiaeth gan reolwyr o benderfyniadau a herio a chyfeirio staff ar draws y gwasanaeth; dylid bod rhaglen arweinyddiaeth a datblygiad ar gael er mwyn datblygu gwytnwch.
7. Dylai uwch reolwyr gymryd camau i wella amlder, cysondeb ac ansawdd arolygiaeth staff rheng flaen; mae'n rhaid cyflwyno dull sicrwydd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd.

**Yn ystod y 12 mis nesaf:**

8. Mae'n rhaid i gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref ar gyfer y gwasanaethau plant barhau i sicrhau bod y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau yn cael eu blaenoriaethu a bod cyflymder y gwelliannau yn cyflymu ac yn cael ei gynnal.
9. Dylid sefydlu trefniadau aml-asiantaeth i atgyfnerthu cynlluniau gweithredol a fydd yn cynorthwyo cydlyniad effeithiol o waith cwblhau Fframweithiau Asesu ar y Cyd gan bartneriaid statudol.
10. Dylid gwella ansawdd asesiadau a chynlluniau i sicrhau eu bod o ansawdd da yn gyson, gyda ffocws clir ar anghenion, risgiau a chryfderau plant a theuluoedd, a bod dealltwriaeth glir o'r canlyniadau, amserlenni a'r cyfrifoldebau am weithredoedd a ddymunir.
11. Dylid gwella ansawdd a chysondeb cofnodion; dylai pob aelod o staff a rheolwyr sicrhau bod eu cofnodion o safon dda, eu bod yn gyfredol a'u bod yn cael eu storio'n systematig.
12. Dylai'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gydweithio i ddatblygu dull cydlynol ar gyfer casglu a dadansoddi gwybodaeth am anghenion cymunedau sy'n cynnwys lleisiau plant a theuluoedd. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i hysbysu'r broses o greu cynlluniau strategol er mwyn cyflawni aliniad effeithiol

darpariaeth gwasanaethau rhwng gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth, y sector ataliol a’r gwasanaethau statudol.

13. Mae angen ymgorffori trefniadau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd, yn cynnwys craffu ar y galw am wasanaethau ac archwilio ansawdd arfer yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod gan reolwyr ar bob lefel wybodaeth amserol, berthnasol a chywir am berfformiad a sicrhau ansawdd i’w galluogi i wneud eu swyddi yn effeithiol ac i gyflawni gwelliannau.

14. Dylid monitro baich achosion ac adroddiadau ar ansawdd perfformiad gweithwyr yn barhaus er mwyn sicrhau bod capasiti digonol i alluogi’r gweithwyr i ymgysylltu’n effeithiol gyda phlant a’u teuluoedd.

4.3 Oherwydd y pryderon sylweddol a nodwyd yn yr arolygiad bydd AGGCC yn ystyried cynnal arolygiad pellach o Wasanaethau Plant Ynys Môn cyn pen 12 - 18 mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

4.4 Mewn ymateb i’r canfyddiadau a’r argymhellion, mae'r awdurdod wedi gwneud y canlynol:

- Llunio Cynllun Gwella Gwasanaeth diwygiedig (CGG) sy’n ymgorffori pob un o'r argymhellion a wnaed yn Adroddiad Arolygu’r AGGCC
- Sefydlu trefniadau Rheoli Prosiect newydd, gyda Grŵp Gwella mewnol o swyddogion sy’n cyfarfod yn fisol ac yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Gwaith.
- Sefydlu Panel newydd o Aelodau Etholedig yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a gynhaliwyd yn ddiweddar, a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.5 Yn ogystal, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd wythnosol gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, y Pennaeth Gwasanaethau Plant a'r Pennaeth Adnoddau Dynol er mwyn goruchwylio datblygiad a gweithrediad y Strategaeth Gweithlu, ac er mwyn sicrhau cyflymder priodol o ran gwneud penodiadau allweddol i swydd Rheolwr Gwasanaeth ac Arweinwyr Ymarfer.

## 5.0 Ffocws y gwaith

5.1 ‘Rydym yn canolbwyntio ar dri neu bedwar mater allweddol ar y tro, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau yn cael eu gwneud yn raddol ac i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy ac yn gynaliadwy. Dros amser, byddwn yn adolygu effaith yr holl newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae ein ffocws yn ystod y pedwar mis diwethaf wedi bod ar yr elfennau canlynol:

5.2 **Strategaeth Gweithlu**

5.3 Datblygwyd Strategaeth Gweithlu newydd, gyda chymorth gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, ac mae Cynllun Gweithredu’n cael ei ddatblygu’n awr i sicrhau y blaenoriaethir y pwyntiau gweithredu allweddol (CGG 1.1; AGGCC A5)

5.4 Llwyddwyd i recriwtio pedwar Gweithiwr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso a byddant yn ymuno â ni dros yr haf; ‘rydym yn recriwtio am Weithwyr Cymdeithasol profiadol (heb dyddiad cau ar gyfer ceisiadau) a bydd un Gweithiwr Cymdeithasol profiadol yn dechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf. Bydd hyn yn golygu y bydd modd i ni reoli’r dasg o leihau nifer y Gweithwyr Cymdeithasol yn ystod 2017 (CGG 1.2)

5.5 Ymgynghorwyd â staff ar strwythur newydd yn ystod Chwefror a Mawrth 2017. Rydym bellach wedi dechrau’r broses benodi a llwyddwyd i lenwi’r ddwy swydd Rheolwr Gwasanaeth. Rydym wedi penodi i 3 swydd Arweinydd Ymarfer yn fewnol a bydd y 5 swydd sy'n weddill yn cael eu hysbysebu’n allanol gyda dyddiad cau ar ddiwedd mis Mehefin (CGG 4.2; AGGCC 6)

5.6 Sefydlwyd y Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd - Teulu Môn - a bydd yn parhau i gael ei gryfhau dros yr ychydig fisoedd nesaf (CGG 4.3).

5.7 Trosglwyddwyd cyfrifoldeb am Teuluoedd yn Gyntaf a’r Tîm o Amgylch y Teulu i'r Gwasanaethau Plant ym mis Ebrill 2017 a bydd y ffordd o ddarparu gwasanaethau ataliol yn gwella wrth i wasanaethau newydd gael eu datblygu a'u comisiynu (CGG 4.4; AGGCC 1)

5.8 Cynhaliwyd Arolwg Staff ar ddiwedd 2016 a chyflwynwyd dadansoddiad ohono i'r Pennaeth Gwasanaeth (Gweithrediadau) ym mis Mawrth 2017. Rhannwyd y negeseuon allweddol gyda staff mewn Cynhadledd Staff, a thrwy Fwletin Staff y Gwasanaeth ym mis Ebrill 2017.

5.9 **Sicrhau Ansawdd, Goruchwylio a Gwella Ymarfer**

5.10 Mae Polisi Goruchwylio newydd wedi cael ei ddatblygu gan y Cydlynydd Dysgu Ymarfer, gan weithio gyda rheolwyr ac ymgynghori â staff. Lansiwyd y Polisi ym mis Mawrth a chedwir llygad ar ei weithrediad. Darparwyd hyfforddiant i wella sgiliau goruchwylio, gan gynnwys cynnal sgyrsiau anodd, ym mis Mehefin 2017 (CGG 1.3; AGGCC 7) Mae trefniadau tracio wedi eu gwneud i sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â gofynion y polisi newydd er mwyn sicrhau bod Goruchwyliaeth, Cefnogaeth a Chyfarwyddyd ar gyfer staff yn arferion craidd o fewn y Gwasanaeth.

5.11 Cynhaliwyd archwiliad cychwynnol o ffeiliau ym mis Chwefror 2017. Trafodwyd y canfyddiadau â staff er mwyn sicrhau bod ymarfer yn gwella. Cynhelir archwiliadau pellach yn ystod yr haf er mwyn sicrhau bod ymarfer a goruchwyliaeth yn gwella (CGG 2.1; AGGCC 10).

5.12 Mae Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Tîm yn rhoi mwy o bwyslais ar ansawdd gwaith Cadw Cofnodion er mwyn sicrhau bod gwendidau yn cael sylw (CGG 3.5; AGGCC 11).

5.13 Sefydlwyd rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer mis Mai a mis Mehefin a oedd yn canolbwyntio ar feysydd yr oedd yr arolygiad wedi tynnu sylw atynt fel rhai i’w gwella, gan gynnwys Goruchwylio, model gweithio’r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, Cyfathrebu Cydweithredol, Model Risg a

Chyfweld Ysgogiadol (CGG 4.1). Adolygir effaith yr hyfforddiant ar ymarfer. (CGG 2.1; AGGCC 10).

5.14 Adolygwyd proffil y Plant sy'n Derbyn Gofal, gyda'r nod o ostwng y niferoedd sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r broses ar gyfer cytuno ar leoliadau yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd i sicrhau y cymerir costau i ystyriaeth, ond bydd cwrdd ag anghenion llesiant plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r trefniadau ariannu ar y cyd gyda phartneriaid yn y meysydd Addysg ac Iechyd hefyd yn cael eu hadolygu i sicrhau y gellir cytuno trefniadau cydgyllido cyn gynted ag y bo modd.

5.15 Rydym wedi sefydlu Panel mewnol i adolygu plant a roddir mewn gofal preswyl. Cadeirir y Panel gan y Pennaeth Gwasanaeth i fonitro cynlluniau gofal a chymorth, i sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym a bod lleoliadau yn cwrdd â'r anghenion ac yn darparu gwerth am arian. Bydd y Panel yn sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn cwrdd â'u rhwymedigaethau cytundebol a bydd yn monitro gwariant yn agos. Mae angen cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth bellach ar gyfer pob lleoliad preswyl.

5.16 Adolygwyd yr opsiwn o ailagor sefydliad preswyl yng Nghaergybi a phenderfynwyd nad yw'n opsiwn ymarferol.(CGG 3.1)

## 6.0 Y cam nesaf o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth

### 6.1 Sicrhau Ansawdd

6.2 Bydd y Fframwaith Sicrhau Ansawdd yn cael ei gryfhau a'i wreiddio o fewn y Gwasanaeth (CGG 3.2; AGGCC 13 & 14)

6.3 Cryfhawyd yr Uned Diogelu a Sicrhau Ansawdd. 'Rydym wedi penodi Swyddog Adolygu Annibynnol ychwanegol a fydd yn dechrau yn ei swydd ar ddiwedd mis Mehefin a bydd hynny'n cynyddu'r capasiti. Bydd cymorth gweinyddol ychwanegol ac ailsefydlu'r swydd Rheolwr Sicrhau Ansawdd yn cryfhau'r cymorth sydd ar gael i'r Timau gweithredol fel y gallant wneud a chynnal y gwelliannau mewn ymarfer y mae angen eu gwneud (CGG 3.2).

6.4 Bydd rheolwyr yn parhau i ganolbwyntio ar wella ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol mewn perthynas â chofnodi achosion, asesu, dadansoddi risg, Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal, Ymweliadau â Phlant sy'n Derbyn Gofal, Ymweliadau Amddiffyn Plant, cyfarfodydd Grŵp Craidd a Chynlluniau Llwybr (CGG 3.3). Ar hyn o bryd mae perfformiad yn parhau i fod yn anghyson.

6.5 Cynhelir archwiliad pellach o ffeiliau ym mis Gorffennaf, a chynhelir ymyriadau sydd wedi'u targedu os yw'n amlwg nad yw Gweithwyr Cymdeithasol unigol wedi gwella ansawdd eu hymarfer ers yr Arolygiad a'r Archwiliad a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2017.

6.6 **Gweithio gyda Phartneriaid**

6.7 Trafodwyd canfyddiadau Adroddiad Arolygiad AGGCC ym Mwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth 2017 i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o'r materion a bod y partneriaid yn ymrwymedig i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i wella gwasanaethau i blant.

6.8 Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Gwasanaeth Addysg. Sicrhawyd ymrwymiad i wella cydweithio ac i ddeialog parhaus ar lefel strategol er mwyn creu amodau gwell ar gyfer cydlyniad gweithredol. Mewn trafodaeth, rydym wedi nodi ystod o achosion i'w harchwilio ar sail aml-asiantaethol; gyda'r themâu a ddewisir ar gyfer yr archwiliadau'n cael eu harwain gan yr adroddiad arolygu gan AGGCC. Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ehangu wrth i ni ymwreiddio'r dull aml-asiantaethol. (CGG 3.4; AGGCC 2).

6.9 Trafodwyd adroddiad yr AGGCC yn y Grŵp Cyflawni Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn; cytunwyd i adolygu Cylch Gorchwyl yr Is-grŵp Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau bod gwaith y grŵp yn cael ei yrru gan yr angen i wella'r ymarfer diogelu aml-asiantaethol cyfredol (CGG 3.4; AGGCC 2).

6.10 Mae'r Gwasanaethau Plant yn arwain Grŵp Tasg a Gorchwyl Gwynedd ac Ynys Môn o dan y Grŵp Diogelu Cyflawni Lleol er mwyn creu Canllawiau Ymarfer Lleol Aml-asiantaethol ar gyfer Amddiffyn Plant gyda ffocws ar wella ymarfer a threfniadau diogelu. Bydd dogfen ddrafft yn barod erbyn mis Hydref (CGG 2.2; AGGCC 3).

**6.11 Gwell gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd**

6.12 Adolygir Gwasanaethau Ataliol a datblygir strategaeth newydd ar y cyd â phartneriaid i sicrhau gwasanaethau a chomisiynu mwy effeithiol ac i ostwng nifer y plant a'r bobl ifanc y bydd angen eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac y bydd angen iddynt dderbyn gofal ( CGG 4.4; AGGCC 12).

6.13 'Rydym wedi dechrau ymarfer yn wahanol ac yn fwy dwys gyda nifer fach o deuluoedd, gan ddilyn model tebyg i waith y Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd (CGG 2.1). Hwn yw'r gwaith y bydd y Tîm Teuluoedd Gwydn yn ei wneud i gefnogi plant i fyw gartref: gan leihau'r angen am lety a chefnogi cynlluniau i ddychwelyd i'r cartref (CGG 5.2).

**6.14 Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr**

6.15 Bydd y rhaglen ar gyfer cyfarfod y Panel yn canolbwyntio ar fonitro a herio gweithrediad y Cynllun Gwella Gwasanaeth, gan ddal y Cyfarwyddwr a'r Gwasanaeth i gyfrif. Ychwanegir at hyn drwy hyfforddiant ac ymweliadau i helpu uwch arweinwyr ac aelodau wella eu dealltwriaeth o'r cymhlethdodau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i blant (CGG 1.5; AGGCC 4).

6.16 Adolygir y Protocol ar gyfer y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod trefniadau corfforaethol yn effeithiol (CGG 6.1).

## 7.0 Cyllidebau

7.1 Mae'r cyllidebau ar gyfer Gwasanaethau Plant yn parhau i fod dan bwysau ac mae 2 ffactor yn cyfrannu at hynny:

- **Costau Staff Asiantaeth**: Mae 2017 yn flwyddyn drosiannol, tra ein bod yn gwneud penodiadau i'r strwythur newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Dros amser, bydd ein dibyniaeth ar Weithwyr Cymdeithasol Asiantaeth yn lleihau. Fodd bynnag, byddem yn parhau yn y tymor byr i fod angen gwasanaethau staff asiantaeth i'n galluogi i gwrdd â'n cyfrifoldebau statudol i blant a phobl ifanc.

- **Lleoliadau all-sirol**: Mae'r Gwasanaeth wedi rhoi cynllun gweithredu mewn lle ar gyfer 2017/18, er mwyn lliniaru cost y lleoliadau hyn. Mae'n cynnwys cryfhau'r prosesau mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc a ddaw i ofal, adolygu'r plant/pobl ifanc sydd mewn lleoliadau preswyl ar hyn o bryd, cynyddu'r opsiynau o ran lleoliadau ar yr Ynys, adolygu'r cyllid sydd wedi ei gymeradwyo ar gyfer lleoliadau preswyl a pharhau efo ymgyrchoedd recriwtio wedi eu targedu'n benodol. Bellach, mae angen caniatâd y Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer yr holl leoliadau preswyl.

## 8.0 Casgliad

8.1 Mae'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth yn symud ymlaen. Rydym yn cyflawni canlyniadau da ar gyfer nifer o'n plant ac 'rydym wedi derbyn sylwadau cadarnhaol ar ansawdd ein gwaith, yn enwedig mewn achosion yn y Llys. 'Rydym yn parhau i herio a chefnogi ymarfer proffesiynol, yn enwedig ansawdd yr asesiadau, gan gofnodi a dadansoddi risg o fewn y Gwasanaeth. Er ein bod yn gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r Strategaeth Gweithlu, bydd yn cymryd amser i'r strwythur newydd a'r ffyrdd newydd o weithio wreiddio.

8.2 Bydd AGGCC yn archwilio rhagor o ffeiliau achos ac yn trafod gyda rhai o'n teuluoedd tuag at ddiwedd Gorffennaf ac rwy'n hyderus y bydd yr achosion yr ydym wedi eu nodi yn dangos tystiolaeth bod ansawdd yr ymarfer wedi gwella. Yr her yn awr yw sicrhau'r safon hon yn gyson ar draws y Gwasanaeth.